# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR SAFONAU**

Dyddiad ac Amser

**11.00 y.b., DYDD LLUN, 21AIN IONAWR, 2019**

Lleoliad

**Ystafell Gwyrfai, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 11 Ionawr 2019)

# PWYLLGOR SAFONAU

## AELODAETH

## Aelodau Etholedig (3)

Y Cynghorwyr

Anne Lloyd Jones
Beth Lawton
Dewi Wyn Roberts

## Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) (5)

Aled Jones
Margaret E.Jones
David Wareing
Einir Young
[Sedd Wag]

## Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) (1)

Richard Parry Hughes

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nodi unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 1 Hydref, 2018 fel rhai cywir (ynghlwm).

**5. COFRESTR BUDDIANNAU AELODAU** 8 - 14

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**6. CYFARFODYDD PWYLLGOR SAFONAU** 15

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**7. HONIADAU YN ERBYN AELODAU** 16 - 17

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PANEL DYFARNU** 18 - 34

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

# PWYLLGOR SAFONAU DYDD LLUN, 1 HYDREF 2018

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Beth Lawton a Dewi Roberts.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr Aled Jones, Miss Margaret Jones, Dr Einir Young (Cadeirydd) a Mr David Wareing.

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Sylwedydd:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones a Mr Richard Parry Hughes.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf, 2018 fel rhai cywir.

Gan gyfeirio at eitem 10 o'r cofnodion – Cynhadledd Safonau Cymru 2018 - nododd y Cadeirydd y bu rhywfaint o gamddealltwriaeth ynglŷn â'r gynrychiolaeth o'r pwyllgor yn y gynhadledd ac, i osgoi dryswch tebyg yn y dyfodol, awgrymodd y byddai'n fuddiol cylchredeg pwyntiau gweithredu'r pwyllgor i'r aelodau yn fuan ar ôl pob cyfarfod.

**5. ADOLYGIAD O'R DREFN AR GYFER CEISIADAU AM ODDEFEBAU**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gwahodd y pwyllgor i drafod a phenderfynu a ddylid diwygio'r drefn ar gyfer ceisiadau am oddefebau.

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y priodoldeb o ganiatáu i ymgeiswyr am oddefebau ymddangos gerbron y pwyllgor. 'Roedd tri opsiwn ar gael, sef:-

- Caniatáu i ymgeiswyr ymddangos gerbron y pwyllgor a chyflwyno eu ceisiadau yn bersonol, ond 'roedd hynny'n cynyddu'r risg o dderbyn gwybodaeth ychwanegol ar y diwrnod na chafodd ei gloriannu'n ddigonol.
- Caniatáu i ymgeiswyr ymddangos gerbron y pwyllgor i ddarparu mwy o eglurhad ar eu cais drwy ateb cwestiynau'n unig.
- Parhau â'r drefn bresennol o wneud y gwaith ar sail adroddiad ysgrifenedig gan y Swyddog Monitro, yn cynnwys copi o'r ffurflen gais am oddefeb ynghyd ag unrhyw wybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd gan y swyddogion ar ôl cysylltu gyda'r ymgeisydd.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y pwyntiau a ganlyn:-

- Na fyddai'n orfodol i ymgeiswyr ddod gerbron y Pwyllgor Safonau, felly o ran y sylw yn yr adroddiad y byddai'r drefn yn gostus o ran amser i'r ymgeisydd, eu dewis hwy fyddai dod i'r cyfarfod. Hefyd, ni ragwelid y byddai'r costau teithio'n sylweddol.
- Bod niferoedd y ceisiadau am oddefeb yn llawer is nag yr oedd rai blynyddoedd yn ôl, adeg y broses trefniadaeth ysgolion.
- Bod gallu'r ymgeisydd i roi ei bwynt drosodd yn bersonol yn bwysig iawn.
- O bosib' bod cais yn glir ar bapur, ac nad oes angen yr ymgeisydd yno, ond byddai'n dda medru rhoi'r cyfle iddynt, petai angen.
- Bod ymgeiswyr aflwyddiannus yn y gorffennol wedi dweud y byddai wedi bod yn fuddiol iddynt fod wedi gallu dod i'r pwyllgor i roi esboniad pellach. Er hynny, efallai na fyddai'r esboniad hwnnw wedi gwneud gwahaniaeth i'r canlyniad.
- Gan fod cwestiynau'r aelodau yn debygol o fod yn dod o gyfeiriad ychydig gwahanol i gwestiynau'r swyddogion, nid yw'n bosib' i'r swyddogion ddyfalu ymlaen llaw pa gwestiynau sy'n debygol o godi yn y pwyllgor a gofyn y cwestiynau hynny i'r ymgeiswyr ar adeg cloriannu'r wybodaeth ar gyfer y pwyllgor.
- Bod lle i gryfhau'r cyswllt gyda chlercod y cynghorau cymuned a thref gan na all swyddogion y Cyngor Sir ateb cwestiynau am fusnes y cyngor dan sylw.
- Ei bod yn hynod bwysig bod ymgeiswyr yn llenwi'r ffurflen yn gyflawn a bod perygl, o wahodd ymgeiswyr i ddod i'r cyfarfod, na fyddent yn trafferthu llawer gyda chynnwys y ffurflen. O bosib' hefyd bod rhai pobl yn cael trafferth llenwi'r ffurflen.
- Bod yr argymhelliad i 'fynnu' bod y Clerc yn darparu llythyr yn esbonio'r cyd-destun yn rhoi gormod o bwysau arnynt, ac y dylid yn hytrach nodi bod 'disgwyl' iddynt ddarparu llythyr.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Caniatáu i ymgeiswyr am oddefebau fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau i ateb cwestiynau posib' gan y pwyllgor yn unig, pe dymunent. Mae hyn ar yr amod:**
  - **Na chaniateir iddynt gyflwyno eu hachos.**
  - **Y disgwylir iddynt fod wedi llenwi eu ffurflenni cais yn gyflawn ac yn gywir.**

**(b) Caniatáu goddefeb i aelodau fod yn bresennol yn y cyfarfodydd ar gyfer ateb cwestiynau ynglŷn â'u cais.**

**(c) Adolygu'r drefn ar ôl cyfnod rhesymol o amser.**

**(ch) Addasu'r drefn ceisio am oddefebau ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned i nodi bod disgwyl i'r Clerc ddarparu llythyr yn esbonio'r cyd-destun i'w gyflwyno gyda'r cais.**

**(d) Dirprwyo'r hawl i'r Swyddog Monitro ddarparu canllawiau ar gyfer trefn gwestiynu ar sail cynnwys yr adroddiad.**

## 6. PRESENOLDEB Y PWYLLGOR SAFONAU AR WEFAN Y CYNGOR

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gwahodd sylwadau ac argymhellion y pwyllgor ar yr hyn sydd i'w gynnwys am y Pwyllgor Safonau ar wefan y Cyngor

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y pwyntiau a ganlyn:-

- Ei bod yn fanteisiol i bobl ddod i wybod mwy am yr hyn mae'r pwyllgor yn ei wneud, a hefyd i ddeall na all y Pwyllgor Safonau gynnig datrysiad i bopeth.
- Gan gyfeirio at fanylion aelodaeth y pwyllgor ar y wefan ar hyn o bryd, nodwyd y dylid gosod enwau'r aelodau naill ai yn ôl trefn y wyddor, neu fesul categori, h.y. etholedig, annibynnol a phwyllgor cymunedol.

Nododd y Swyddog Monitro y gellid ystyried cynnwys siart llif ar y wefan ynglŷn â'r drefn gwynion am y Cod Ymddygiad, h.y. sut i gwyno a beth sy'n digwydd i'r gŵyn. Hefyd, mewn ymateb i ymholiad, cytunodd y Swyddog Monitro i geisio mwy o wybodaeth gan yr Ombwdsmon ynglŷn â beth yw'r disgwyliadau o ran yr amserlennu ac i gynnwys hyn gyda'r llinell amser.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gyda'r sylwadau a ganlyn:-**

- **Sicrhau bod aelodaeth y pwyllgor ar y wefan naill ai yn ôl trefn y wyddor, neu fesul categori, h.y. etholedig, annibynnol a phwyllgor cymunedol.**
- **Bod y Swyddog Monitro yn ceisio mwy o wybodaeth gan yr Ombwdsmon ynglŷn â beth yw'r disgwyliadau o ran amserlennu cwynion ac yn cynnwys hyn gyda'r llinell amser ar y wefan.**

## 7. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn cyflwyno gwybodaeth am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

Eglurodd y Swyddog Monitro nad oedd penderfyniad yr Ombwdsmon i beidio ymchwilio i gŵyn yn golygu nad oedd aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad a bod angen cyfleu'r neges i'r aelod nad yw'r ymddygiad yn briodol ac y gall yr Ombwdsmon gymryd hynny i ystyriaeth os bydd yn gweld patrwm o gwynion tebyg yn datblygu yn erbyn yr aelod yn y dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y pwyntiau a ganlyn:-

- Ei bod yn bwysig bod pobl yn deall eu bod wedi torri'r Cod, er nad oes ymchwiliad.
- Y pryderir am yr effaith ar y dioddefwyr os nad yw'r Ombwdsmon yn ymchwilio.
- Bod angen pwysleisio bod rhaid parchu'r Cod, waeth beth yw'r amgylchiadau.
- Os oes canfyddiad y gallai'r Cod fod wedi ei dorri mewn achos nad yw'r Ombwdsmon am ymchwilio iddo, y dylai'r Swyddog Monitro anfon llythyr at yr aelod, yn rhoi sylw i lythyr yr Ombwdsmon ac yn atgoffa'r aelod o bwysigrwydd parchu'r Cod.
- Bod angen rhoi pwyslais ar yr angen i aelod ymddwyn yn barchus tuag at bawb bob amser.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Nodi'r adroddiad.**

**(b) Os oes canfyddiad gan yr Ombwdsmon y gallai'r Cod fod wedi ei dorri mewn achos nad yw'r Ombwdsmon am ymchwilio iddo, y dylai'r Swyddog Monitro anfon llythyr at yr aelod dan sylw yn rhoi sylw i lythyr yr Ombwdsmon, yn cyfeirio at farn yr Ombwdsmon, pwysigrwydd y Cod Ymddygiad ac yn cynnig awgrymiadau am gymorth neu gefnogaeth.**

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 2017-18

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad y Swyddog Monitro yn amgáu Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon 2017/18.

Nododd y Swyddog Monitro fod nifer y cwynion cod ymddygiad a ddaeth i law yn ymwneud â chynghorau cymuned wedi cynyddu 33%. Er hynny, 'roedd nifer y cwynion ar draws Cymru yn isel – tua 200. Ar yr egwyddor nid da lle gellir gwell, cychwynnwyd ar y peilot yng Ngwynedd, yn y gobaith y byddai'n dwyn ffrwyth.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**9. CYNHADLEDD SAFONAU CYMRU 2018**

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Swyddog Monitro ar Gynhadledd Safonau Cymru 2018 a gynhaliwyd yn Aberystwyth ar 14 Medi. Nododd y byddai adroddiad ffurfiol o'r gynhadledd ar gael maes o law ac y cynhelir cynhadledd 2019 yn y Gogledd.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 y.b. a daeth i ben am 12.10 y.h.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **21 Ionawr 2019** |
| **TEITL :** | **Cofrestr Buddiannau Aelodau** |
| **AWDUR :** | **Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDU :** | **Gofyn am farn y Pwyllgor** |

**Cefndir**

1. Mae'n rhaid i aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig sydd â phleidlais hysbysu'r Swyddog Monitro o'u buddiannau o dan y Cod Ymddygiad. Mae'n rhaid i'r Swyddog monitro gadw cofrestr o'r buddiannau hyn.

2. Mae'r gofrestr felly yn cynnwys y datganiadau 'ymlaen llaw' a wneir gan aelodau pan fyddant yn cymryd eu swyddi (mae'n rhaid iddynt hefyd gadw'r cofrestriad yma'n gyfredol). Mae hefyd yn cynnwys hysbysiadau o'r buddiannau mae aelodau yn eu datgan mewn cyfarfodydd.

3. Mae'r gofrestr yn cael ei chadw ar ffurf bapur ac ar gael i unrhyw un sy'n dymuno dod i mewn i'w gweld. Mae'n ofynnol bellach i'r Cyngor gyhoeddi'r Gofrestr Buddiannau Aelodau yn electroneg, ac felly mae hefyd ar gael ar wefan y Cyngor. Mae'n golygu y gellir gweld datganiadau pob aelod drwy eu tudalennau personol ar y wefan. Mae datganiadau a wneir mewn cyfarfodydd i'w gweld yng nghofnodion y cyfarfod hwnnw sydd hefyd i'w gweld drwy dudalen bersonol yr aelod. Gellir gweld y tudalennau yma drwy ddilyn y linc canlynol:

https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/mgMemberIndex.aspx?bcr=1

4. Atodir copi o'r ffurflen gofrestru ymlaen llaw i'r adroddiad hwn.

**Argymhelliad**

5. Gofynnir i'r Pwyllgor am ei farn ar y broses o gofrestru buddiannau ac ar y ffurflen amgaeedig

| **Ffurflen Cofrestru Buddiannau /Interests Registration Form**<br><br>**Cod Ymddygiad Aelodau Cyngor Gwynedd**<br>**Gwynedd Council Members Code of Conduct** | |
|---|---|

**Cofrestrwch eich buddiannau personol dan y penawdau priodol isod gan roddi "dim" lle nad oes gennych fuddiant. Mae rhaid cwblhau pob rhan o'r ffurflen a'i dychwelyd i'r Swyddog Monitro o fewn 28 diwrnod.**

(*Os ydych yn ystyried fod unrhyw wybodaeth yn wybodaeth sensitif ( gweler Atodiad 1) dylsech gysylltu a'r Swyddog Monitro am arweiniad)*

**Register your personal interests under the appropriate heading below putting "none" where you do not have a relevant interest. You must complete every section of the form and return it to the Monitoring Officer within 28 days.**

*(If you consider the information to be sensitive information ( see Appendix 1) you should contact the Monitoring Officer for guidance.)*

**Enw/Name……………………………………………………………………………………………………………………**

| |
|---|
| **1.Gwaith, Swyddi a Busnes**<br>Unrhyw gyflogaeth yr ydych yn ymgymryd â hi neu fusnes yr ydych yn ei redeg;<br><br>**1. Employment, Jobs and Business**<br>Any employment, or business carried on by you |
| |
| **2. Eich Cyflogwr, Partneriaethau neu Gyfarwyddwriaethau**<br>Unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, unrhyw ffyrm yr ydych yn bartner ynddi neu unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl.<br><br>**2. Your Employer, Partnerships or Directorships**.<br>Any person who employs or has appointed you, any firm in which you are a partner or any company for which you are a remunerated director. |
| |

| |
|---|
| |
| **3. Taliadau Etholiad a Chefnogaeth Ariannol**<br>unrhyw berson, ac eithrio'r Cyngor sydd wedi rhoi taliad i chi mewn cysylltiad â'ch ethol neu mewn cysylltiad ag unrhyw dreuliau a dynnwyd gennych wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau fel aelod;<br><br>**3.Election Payments and Financial Support**<br>any person, other than the Council , who has made a payment to you in respect of your election or any expenses incurred by you in carrying out your duties as a member; |
| |
| **4.Cyfranddaliadau a Waranau ( "Securities") Mewn Cwmnïau**<br>Unrhyw gorff corfforaethol y mae ganddo le busnes neu dir yng Ngwynedd , ac y mae gennych gyfranddaliadau neu waranau ( securities) eraill yn y corff hwnnw ac sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu un ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau'r corff hwnnw;<br><br>**4. Shareholdings and Securities in Companies**<br>Any corporate body which has a place of business or land in your authority's area, and in which you have a beneficial interest in a class of securities of that body that exceeds the nominal value of £25,000 or one hundredth of the total issued share capital of that body |
| |
| **5. Cytundebau gyda'r Awdurdod**<br>Unrhyw gontract am nwyddau, gwasanaethau neu waith a wnaed rhyngoch chi, rhwng ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, neu gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu rhwng corff o'r math a ddisgrifir yn 4 uchod a'r Cyngor<br><br>**5. Contracts With the Authority**<br>Any contract for goods, services or works made between the Council and you or a firm in which you are a partner, a company of which you are a remunerated director, or a body of the description specified in sub-paragraph 4 above |
| |

| |
|---|
| |
| **6.Tir ac Eiddo**<br>Unrhyw dir neu eiddo Yng Ngwynedd yr ydych yn berchen arno neu yn dal les ynddo (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) gan gynnwys eich cartref.<br><br>**6. Land and Property**<br>Any land or properties in Gwynedd of which you are an owner, hold a lease of (alone or jointly with others) including your home. |
| |
| **7. Tenantiaeth gan y Cyngor**<br>Unrhyw dir y mae'r Cyngor yn landlord arno ac y mae ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu gorff o'r math a ddisgrifir yn 4 uchod yn denant arno;<br><br>**7.Tenancies by the Council**<br>Any land where the landlord is the Council and the tenant is a firm in which you are a partner, a company of which you are a remunerated director, or a body of the description specified in sub-paragraph 4 above. |
| |
| **8.Penodiadau gan yr Awdurdod**<br>Unrhyw gorff yr ydych wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich Cyngor i fod arno;<br><br>**8.Appointments by The Council**<br>Any body to which you have been elected, appointed or nominated by the Council; |
| |

**9.Aelodaeth neu Swyddogaeth Reoli Cyrff Cyhoeddus , Cymdeithasau Tai, Elusennau, Cymdeithasau a Chlybiau, Pleidiau Gwleidyddol (nad ydynt wedi eu datgan yn 8 uchod),**

Unrhyw;

- awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;
- cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen, neu gorff arall a chanddo ddibenion elusennol;
- corff y mae dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus ymhlith ei brif ddibenion;
- undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu
- clwb preifat gymdeithas neu gymdeithasiad sy'n gweithredu o fewn ardal Gwynedd

yr ydych chi'n aelod ohono/ohoni neu'n dal swydd neu swyddogaeth o reolaeth y corff.

**9. Membership or Management Role of Public Bodies, Housing Associations, Charities, Clubs and Associations, Political Parties (which are not disclosed in 8 above).**

Any;

- public authority or body exercising functions of a public nature;
- company, industrial and provident society, charity or body directed to charitable purposes;
- body whose principal purposes include the influence of public opinion or policy;
- trade union or professional association; or
- private club, society or association operating within the Gwynedd area

in which you have membership or hold a position of general control or management.

**10. Trwydded o Dir**
Unrhyw dir yng Ngwynedd y mae gennych chi drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 diwrnod neu gyfnod hwy

**10. Licence in Land**
Any land in Gwynedd in which you have a licence (alone or jointly with others) to occupy for 28 days or longer.

**Arwyddwyd /Signed………………………………………………………………………………………………………………………**

**Dyddiad /Date…………………………………………………………………………………………………………………………….**

## ATODIAD 1 / APPENDIX 1

| | |
|---|---|
| **18.5 Y GOFRESTR BUDDIANNAU AELODAU** | **18.5 THE REGISTER OF MEMBERS' INTERESTS** |
| 18.5.1 Cofrestru Buddiannau Ariannol ac Eraill ac Aelodaeth a Swyddi Rheoli. | 18.5.1 Registration of Financial and Other Interests and Memberships and Management Positions |
| (a) Yn amodol ar is-baragraff (c) mae'n rhaid i chi o fewn 28 diwrnod o'r | (a)Subject to sub-paragraph(c) you must within 28 days of |
| (i) adeg y caiff côd ymddygiad eich awdurdod ei fabwysiadu neu y caiff darpariaethau gorfodol y côd enghreifftiol hwn eu cymhwyso i'ch awdurdod; neu o'ch | (i) your authority's code of conduct being adopted or the mandatory provisions of this model code being applied to your authority; or |
| (ii) etholiad neu benodiad i'r swydd (os yw hynny'n ddiweddarach), gofrestru eich buddiannau ariannol a buddiannau eraill, pan fyddant yn dod o fewn categori a grybwyllwyd ym mharagraff 8.4.1(b)(i) yng nghofrestr eich awdurdod a gynhelir o dan Adran 81(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000 trwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Swyddog Monitro eich awdurdod. | (ii)your election or appointment to office (if that is later) register your financial interests and other interests where they fall within a category mentioned in paragraph 18.4.1(b)(i) in your authority's register maintained under Section 81(1) of the Local Government Act 2000 by providing written notification to your authority's Monitoring Officer. |
| (b) Mae'n rhaid i chi, o fewn 28 diwrnod o ddod yn ymwybodol o unrhyw fuddiant personol newydd neu newid i unrhyw fuddiant personol a gofrestrwyd o dan baragraff (a), gofrestru'r buddiant personol newydd hwnnw neu'r newid hwnnw i fuddiant personol trwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Swyddog Monitro eich awdurdod. | (b)You must within 28 days of becoming aware of any new personal interest or change to any personal interest registered under sub-paragraph (a), register that new personal interest or change by providing written notification to your authority's Monitoring Officer. |
| (c) Nid yw paragraffau (a) a (b) yn berthnasol i wybodaeth sensitif a bennwyd un unol â pharagraff 18.5.2(a). | (c) Sub-paragraphs (a) and (b) do not apply to sensitive information determined in accordance with paragraph 18.5.2(a). |
| **18.5.2 Gwybodaeth Sensitif**<br>(a) Pan fyddwch o'r farn bod y wybodaeth yn ymwneud ag unrhyw un o'ch buddiannau personol yn wybodaeth sensitif a bod Swyddog Monitro eich awdurdod yn cytuno, ni fydd angen i chi gynnwys y wybodaeth honno wrth gofrestru'r buddiant hwnnw, neu, fel y bo'n berthnasol newid i'r buddiant o dan baragraff 18.5.1. | **18.5.2 Sensitive Information**<br>(a)When you consider that the information relating to any of your personal interests is sensitive information and your authority's monitoring officer agrees, you need not include that information when registering that interest, or as the case may be a change to the interest under paragraph 18.5.1. |
| (b) Mae'n rhaid i chi o fewn 28 diwrnod o ddod yn ymwybodol o unrhyw newid i amgylchiadau sy'n golygu nad yw'r wybodaeth a eithriwyd o dan is-baragraff (a) yn wybodaeth sensitif mwyach, hysbysu Swyddog Monitro eich awdurdod gan ofyn i'r wybodaeth gael ei chynnwys yng nghofrestr buddiannau aelodau eich awdurdod. | (b)You must, within 28 days of becoming aware of any change of circumstances which means that information excluded under sub-paragraph (a) is no longer sensitive information, notify your authority's monitoring officer asking that the information be included in your authority's register of members' interests. |
| (c) Yn y côd hwn, mae "gwybodaeth sensitif" yn golygu gwybodaeth y byddai caniatáu iddi gael ei harchwilio gan y cyhoedd yn creu, neu'n debygol o greu, risg ddifrifol y gallech chi neu unigolyn sy'n byw gyda chi fod yn agored i drais neu fygythion. | (c)In this code, 'sensitive information' means information whose availability for inspection by the public creates, or is likely to create, a serious risk that you or a person who lives with you may be subjected to violence or intimidation. |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD** | **21 Ionawr 2019** |
| **TEITL** | **Cyfarfodydd Pwyllgor Safonau** |
| **AWDUR** | **Swyddog Monitro** |

**Cefndir**

Amcan yr adroddiad yw ystyried  nifer o gyfarfodydd cyffredin y Pwyllgor a gynhelir yn ystod y flwyddyn fwrdeistrefol.

Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor yn cyfarfod ar sail rhaglen o 4 cyfarfod y flwyddyn. Er hynny, mae adegau pan mae'r rhaglen yn bennaf er gwybodaeth. Mae lle i ystyried yr angen am 4 cyfarfod sefydlog blynyddol y gellir, efallai eu crynhoi i 3.  Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi canslo un cyfarfod allan o'r 4 ym mhob blwyddyn.

Wrth adolygu'r rhaglen waith blynyddol ymddengys y byddai cynnal 3 cyfarfod wedi eu hamseru i gyd fynd ag amserlen y Cyngor yn caniatáu i gynnal y rhaglen heb danseilio cynnal y gweithgareddau. Petai angen cyfarfod arbennig neu benodol yna gellir darparu ar gyfer hyn.

Rwyf wedi holi Cynghorau eraill Gogledd Cymru ynglŷn â'u rhaglenni.

| Cyngor | Amlder | Sylw |
|---|---|---|
| **Conwy** | 4 y flwyddyn | |
| **Dinbych** | 4 y flwyddyn | |
| **Fflint** | 12 y flwyddyn | |
| **Wrecsam** | 4 y flwyddyn | |
| **Ynys Môn** | 2 y flwyddyn | Nodir fod Ynys Môn yn cynnal Panel goddefebau a gydag aelodaeth weithgar ar draws meysydd ehangach |

**ARGYMHELLIAD**

**Ceisio barn y Pwyllgor ar amlder a nifer cyfarfodydd y Pwyllgor.**

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Y PWYLLGOR SAFONAU** |
| **Dyddiad :** | **21 Ionawr 2019** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Pwrpas :** | **Er gwybodaeth** |

**1. Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

**2. Penderfyniadau**

**<u>Cwyn 14539/201702769</u>**

Cwyn bod cynghorydd sir wedi methu a chofrestru perchnogaeth tir fel buddiant ac wedi methu datgelu hynny wrth drafod cais cynllunio gyda swyddogion.

Penderfynodd yr Ombwdsmon ymchwilio a daeth i'r casgliad canlynol:

- Ymddengys bod yr aelod wedi torri'r cod drwy beidio â chofrestru'r buddiant ac wrth beidio ei ddatgan wrth e-bostio swyddogion cynllunio.
- Ni oedd cynnwys yr e-bost yn tynnu llinell glir rhwng rôl yr aelod fel unigolyn a'i rôl fel aelod o'r Cyngor
- Er dadleuon yr aelod i'r gwrthwyneb roedd o'r farn ei fod wedi derbyn hyfforddiant digonol ar y Cod Ymddygiad ac os nad oedd yn glir am unrhyw agwedd ei gyfrifoldeb ef oedd ceisio cyngor pellach gan y Swyddog Monitro.
- Ar ôl ystyried y prawf budd cyhoeddus penderfynodd nad oedd angen gweithredu pellach yn yr achos gan fod yr unigolyn yn aelod newydd ar y pryd, mai dyma'r tro cyntaf i'w ymddygiad ddod i sylw'r Ombwdsmon, a'i fod bellach wedi cwblhau'r ffurflen gofrestru buddiannau'n gywir.
- Byddai'n ysgrifennu at yr aelod i bwysleisio pwysigrwydd cadw ei rolau preifat a chyhoeddus ar wahân ac y dylai geisio cyngor gan y Swyddog Monitro os yw angen mwy o hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

**<u>Cwyn 201805374</u>**

Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod aelod o gyngor cymuned wedi:

- gwneud datganiad nad oedd yn wir er mwyn ceisio tanseilio cefnogaeth i ymgyrch leol yr oedd yr achwynydd yn ei arwain
- wedi defnyddio ei dylanwad ar bwyllgor y neuadd leol i rwystro'r achwynydd rhag llogi'r neuadd.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio am y rhesymau canlynol:

- Nid oedd yr achwynydd wedi cyflwyno tystiolaeth ddigonol i gefnogi'r gŵyn ond hyd yn oed petai wedi gwneud hynny, nid oedd o'r farn y byddai wedi torri'r Cod Ymddygiad
- Nid oedd yn glir os oedd yr aelod yn gweithredu fel aelod ar y pryd, ond hyd yn oed petai'n gwneud hynny, nid oedd yn fodlon ei bod wedi rhwystro'r achwynydd rhag llogi'r neuadd.

**3. Dadansoddiad o'r Cwynion**

Isod ceir dadansoddiad o natur y cwynion hyd yn hyn eleni:

| **Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei (h)erbyn** | |
|---|---|
| Aelod o gyngor cymuned | 8 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd | 3 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd a chyngor cymuned | 0 |
| **Natur yr achwynydd** | |
| Cynghorydd | 3 |
| Aelod o'r cyhoedd | 7 |
| Swyddog | 1 |
| **Natur yr honiad** | |
| Ymddygiad cyffredinol | 4 |
| Datgan Buddiant | 7 |
| **Canlyniad** | |
| Dim ymchwiliad | 10 |
| Ymchwiliad – dim tystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad | 0 |
| Ymchwiliad – tystiolaeth o dorri'r Cod ond dim camau pellach | 1 |
| Ymchwiliad - cyfeirio at y Pwyllgor Safonau | 0 |
| Ymchwiliad - cyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru | 0 |

**4. Achosion Agored**

Mae'r sefyllfa o safbwynt achosion eraill fel a ganlyn:

- **Ombwdsmon yn ystyried os dylai ymchwilio** **2**
- **Ombwdsmon yn cynnal ymchwiliad** **0**

**5. Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **21 Ionawr 2019** |
| **Teitl :** | **Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2017-18** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Pwrpas :** | **Cyflwyno er gwybodaeth** |

**Cefndir**

1. Bydd aelodau'n ymwybodol mai rôl Panel Dyfarnu Cymru yw ffurfio tribiwnlysoedd achos i ystyried honiadau yn erbyn aelodau o dorri'r Cod Ymddygiad. Mae'r Panel yn derbyn honiadau o'r fath mewn dwy ffordd – naill ai yn uniongyrchol gan yr Ombwdsmon neu ar ffurf apeliadau yn erbyn penderfyniadau Pwyllgorau Safonau.

2. Atodir copi o Adroddiad Blynyddol y Panel er sylw'r Pwyllgor.

**Argymhelliad**

3. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

# Panel Dyfarnu Cymru
# Adroddiad Blynyddol

## Blwyddyn 2017 – 2018

PDC / APW

PANEL DYFARNU CYMRU
ADJUDICATION PANEL FOR WALES

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Rhagair** | | 3 |
| **Adran 1** | Amdanom ni | 4 |
| **Adran 2** | Perfformiad a Chynnydd | 8 |
| **Adran 3** | Crynodebau o Achosion | 12 |
| **Adran 4** | Ein Cwsmeriaid | 14 |
| **Adran 5** | Blaenoriaethau Busnes | 15 |
| **Adran 6** | Gwariant | 16 |


OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG35947 ISBN digidol 978-1-78964-388-6

# Rhagair



Dyma fy nhrydydd adroddiad blynyddol fel Llywydd Panel Dyfarnu Cymru. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018.

Ein nod yw sicrhau bod y Panel yn gweithio er budd pawb yng Nghymru sy'n dod o dan ein hawdurdodaeth, drwy ddelio ag unrhyw anghydfodau yn effeithlon ac effeithiol. Yn benodol, rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â'r anghydfod yn teimlo bod yr anghydfod wedi cael ei ddatrys yn deg o fewn cyfnod byr fel sy'n rhesymol. Rydym hefyd yn ymwybodol bod yn rhaid i'r cyhoedd yn ehangach fod yn hyderus y bydd unrhyw dorri ar y Cod Ymddygiad gan aelodau yn cael ei drin yn deg ac mewn modd amserol er mwyn cynnal ymddiriedaeth a hyder mewn democratiaeth leol.

Yr un themâu sydd wedi codi yn yr achosion a glywyd gan PDC dros y flwyddyn ddiwethaf; sef aelodau etholedig yn bwlio ac yn aflonyddu ar swyddogion cynghorau a methu dangos parch ac ystyriaeth. Mae hyn wedi ei gwneud yn ofynnol i baneli PDC bwyso a mesur yn ofalus hawl hanfodol cynrychiolwyr mewn democratiaeth i fynegi eu barn (yn arbennig mewn cyd-destun gwleidyddol) a hawl pobl eraill i beidio â chael eu bwlio neu eu cam-drin yn y gweithle. Pan mae sylwadau o'r fath yn gysylltiedig ag anableddau, ymddangosiadol neu wirioneddol, mae PDC yn ystyried gweithgareddau o'r fath yn rhai a allai fod yn wahaniaethol sydd, yn fwy na thebyg, yn galw am gyfyngu ar yr hawl i ryddid mynegiant. Gobeithio y bydd aelodau yn cofio bod ganddynt, pan fyddant yn delio â swyddogion cynghorau, statws cyflogwr i bob pwrpas, yn arbennig os ydynt yn swyddogion iau neu anabl.

Hefyd yn y flwyddyn ddiwethaf, braf yw gallu dweud bod PDC wedi atgyfnerthu ei dîm o arweinwyr drwy greu rôl Dirprwy Lywydd a phenodi Ms Siân Jones i'r rôl honno.

Mae croeso i chi ofyn unrhyw gwestiynau neu wneud sylwadau ar unrhyw agwedd ar waith y Panel, neu ar gynnwys yr Adroddiad, a dylid eu cyfeirio yn y lle cyntaf at y Cofrestrydd.

**Claire Sharp**
**Llywydd, Panel Dyfarnu Cymru**

# Adran 1 – Amdanom ni

Yn yr adran hon:

- Sail ar gyfer PDC
- Swyddogaeth PDC
- Rheoliadau PDC
- Proses PDC
- Aelodau PDC
- Penodiadau
- Hyfforddiant
- Cysylltu â PDC
- Defnyddio PDC

## Sail ar gyfer PDC

Mae Panel Dyfarnu Cymru (PDC) yn dribiwnlys annibynnol a sefydlwyd i benderfynu ar honiadau o dorri amodau Cod Ymddygiad statudol awdurdod gan aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig o gynghorau sir, bwrdeistrefi sirol a chynghorau cymuned, awdurdodau tân ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru.

Sefydlwyd PDC dan Ran III Deddf Llywodraeth Leol 2000.

## Swyddogaeth PDC

Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer awdurdod yn darparu cyfres o safonau i'w aelodau y mae disgwyl iddynt lynu wrthynt mewn bywyd cyhoeddus. Mae'r cod ymddygiad yn cynnwys amrywiol ofynion o ran sut y dylai aelodau ymddwyn, ac mae'n cynnwys gofynion o ran cydraddoldeb, buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu, gwybodaeth gyfrinachol, adnoddau eu hawdurdod a'r angen i osgoi dwyn anfri ar eu swydd neu awdurdod.

Mae gan y Panel ddwy swyddogaeth statudol yng nghyswllt torri'r Cod Ymddygiad:

- ffurfio tribiwnlysoedd achos neu dribiwnlysoedd achos interim ("Tribiwnlysoedd Achos") i ystyried **cyfeiriadau** gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ar ôl ymchwilio i honiadau bod aelod wedi methu cydymffurfio â Chod Ymddygiad ei awdurdod, ac
- ystyried **apeliadau** gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau awdurdodau lleol eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad ("Tribiwnlysoedd Apêl").

## Rheoliadau PDC

Mae PDC yn gweithredu yn unol â'i reoliadau gweithdrefnol a deddfwriaeth gysylltiedig arall. Mae'r rheoliadau'n sicrhau bod pob achos a glywir gan PDC yn cael eu trin yn deg, yn gyson, yn brydlon ac yn gyfiawn. Maent yn sicrhau bod pawb sy'n dod gerbron PDC yn deall yn glir y camau mae'n rhaid iddynt eu dilyn er mwyn cyflwyno ffeithiau'r anghydfod a'r dadleuon perthnasol yn effeithiol i PDC. Maent hefyd yn sicrhau bod pob parti mewn achos yn deall dadleuon y parti arall ac yn gallu ymateb iddynt.

Caiff gweithdrefnau PDC eu llywodraethu gan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd).
- Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001 (fe y'u diwygiwyd), a
- Rheoliadau Archwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd).

## Proses PDC

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno ymateb i gyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu wneud cais am ganiatâd i apelio i PDC lenwi'r ffurflen berthnasol a'i hanfon at PDC.

Mewn gwrandawiad PDC bydd y panel yn cynnwys cadeirydd sydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith a 2 aelod lleyg. Gall aelodau sydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith hefyd eistedd fel aelodau lleyg. Fel arfer, caiff gwrandawiadau PDC eu cynnal yn gyhoeddus ac mewn lleoliad sy'n agos at ardal yr awdurdod.

Mae PDC yn cyhoeddi ei benderfyniadau ar wefan PDC. Gellir apelio yn erbyn penderfyniadau Tribiwnlysoedd Achos ar seiliau cyfyngedig i'r Uchel Lys. I ddechrau, rhaid ceisio caniatâd gan yr Uchel Lys i apelio i'r Uchel Lys.

Rhoddir canllawiau a gwybodaeth lawn am PDC a'i weithdrefnau ar wefan PDC. Fel arall, cysylltwch â thîm gweinyddol PDC i gael rhagor o wybodaeth neu os hoffech dderbyn cyhoeddiadau mewn fformat gwahanol. Mae'r manylion cysylltu i'w gweld ar dudalen 7.


## Aelodau PDC

Gwneir penodiadau i PDC gan Brif Weinidog Cymru yn dilyn ystyried argymhellion a wnaed gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

| | |
|---|---|
| **Llywydd** | Mae gan y Llywydd gyfrifoldeb barnwrol am PDC a'i aelodau. |
| **Dirprwy Lywydd** | Mae'r Dirprwy Lywydd yn cynorthwyo'r Llywydd ac yn cyflawni dyletswyddau Llywydd os nad yw'r Llywydd yn gallu cyflawni ei dyletswyddau, dros dro neu'n barhaol. |
| **Aelodau Cyfreithiol** | Mae aelodau cyfreithiol yn gyfreithwyr cymwysedig ac yn gyfrifol am gynnal trafodaethau mewn gwrandawiadau ac am gynghori'r Ysgrifenyddiaeth ar faterion cyfreithiol. Mae aelodau cyfreithiol yn ysgrifennu penderfyniadau PDC ac yn rhoi cyfarwyddiadau lle bo angen. |
| **Aelodau Lleyg** | Mae gan aelodau lleyg ystod eang o wybodaeth a phrofiad sy'n berthnasol i waith PDC. |

**Y Tîm Gweinyddol**

Mae dyletswyddau gweinyddol bob dydd yn cael eu dirprwyo i'r tîm gweinyddol. Y tîm sy'n delio a'r holl waith papur rhagarweiniol ac yn prosesu ceisiadau i PDC. Mae'r tîm gweinyddol yn ymgynghori â'r Llywydd a/neu'r aelodau cyfreithiol ynghylch yr holl bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod y camau rhagarweiniol cyn gwrando ar achosion, ac yn rhoi gwybod i'r partïon yn ysgrifenedig am y penderfyniadau a'r cyfarwyddiadau. Mae'r tîm gweinyddol yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer cadeiryddion, aelodau a defnyddwyr PDC, ac yn mynychu gwrandawiadau i helpu i sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn effeithlon.




## Penodiadau

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi penodi Ms Siân Jones yn Ddirprwy Lywydd yn dilyn proses recriwtio annibynnol i weithredu ar ran y Llywydd os digwydd iddi fethu ymgymryd â'i dyletswyddau, dros dro neu'n barhaol. Bydd y Dirprwy Lywydd hefyd yn arwain ar feysydd y cytunir arnynt â'r Llywydd ar ddechrau bob blwyddyn. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y Dirprwy Lywydd yn gyfrifol am gyfathrebu ac allgymorth.

## Hyfforddiant

Cynhaliwyd seminar hyfforddi yn ystod mis Mehefin 2017 a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar grefft y barnwr. Mae rhaglen reolaidd o werthuso perfformiad ar gyfer aelodau PDC wedi cael ei chwblhau dros flynyddoedd blaenorol. Rhagwelir y bydd y rhaglen nesaf o werthuso perfformiad aelodau PDC yn cychwyn yn ystod blwyddyn 2018/19.

## Cysylltu â PDC

I gysylltu â Thîm Gweinyddol PDC:

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad PDC: | Panel Dyfarnu Cymru<br>Adeiladau'r Llywodraeth<br>Spa Road East<br>Llandrindod<br>Powys<br>LD1 5HA |
| Llinell Gymorth PDC: | 03000 259805 |
| E-bost PDC: | adjudication.panel@gov.wales |

## Defnyddio PDC

Mae PDC yn hapus i gyfathrebu â chi yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad oes neb sy'n siarad Cymraeg ar gael ar unwaith, byddwn yn trefnu i aelod Cymraeg o staff eich ffonio chi'n ôl.

Gallwch ddewis cael cynnal eich gwrandawiad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad Cymraeg na Saesneg yw eich iaith gyntaf a'ch bod yn dymuno siarad yn eich iaith gyntaf yn ystod y gwrandawiad, gallwn drefnu i gyfieithydd fod yn bresennol. Os oes angen dehonglydd iaith arwyddion i ddod i'r gwrandawiad, byddwn yn trefnu hynny.

Gwneir darpariaeth os bydd gennych chi, neu unrhyw un sy'n dod gyda chi i'r gwrandawiad, unrhyw ofynion eraill o ran mynediad a allai effeithio ar ein trefniadau ar gyfer y gwrandawiad.

Er mwyn gallu trefnu i gyfieithwyr/dehonglwyr fod yn bresennol neu er mwyn darparu ar gyfer unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan fynychwyr, rhaid rhoi digon o rybudd i'r tîm gweinyddol ymlaen llaw.

# Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr adran hon:

- Niferoedd ac ystadegau
- Data Gwrandawiadau
- Apeliadau pellach
- Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol
- Cwynion


## Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn Tribiwnlys yn rhedeg o fis Ebrill i fis Mawrth. Gan fod nifer yr achosion a dderbynnir yn gymharol isel, rhoddir ffigurau am gyfnod o 5 mlynedd i alluogi cymharu.

Dyma'r ystadegau a gaiff eu casglu:


- Nifer y cyfeiriadau a'r apeliadau a dderbyniwyd
- Y math o geisiadau a dderbyniwyd ac a gofrestrwyd
- Nifer y ceisiadau a gwblhawyd yn derfynol
- Canlyniad y ceisiadau

Graff 2.1: Nifer y cyfeiriadau ac apeliadau a dderbyniwyd fesul blwyddyn





Tud. 26

Graff 2.2: Nifer y cyfeiriadau ac apeliadau y penderfynwyd arnynt fesul blwyddyn Ebrill 2013-Mawrth 2018





Siart 2.3: Canlyniadau cyfeiriadau ac apeliadau Ebrill 2013-Mawrth 2018

Mae'r siart isod yn dangos canlyniadau cyfeiriadau ac apeliadau a benderfynwyd gan y Panel Dyfarnu dros y 5 mlynedd diwethaf



Graff 2.4: Torri amodau yn ôl math Ebrill 2013-Mawrth 2018




## Data gwrandawiadau

Yn ystod 2017-2018, aeth 2 atgyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymlaen i wrandawiad, a oedd yn golygu 3 diwrnod o wrandawiadau i gyd gyda'i gilydd:

| **Math** | **Hyd (diwrnodau)** |
|---|---|
| Cyfeiriad | 3 diwrnod gwrandawiad |
| Apêl | 0 diwrnod gwrandawiad |

Hefyd, cynhaliwyd 1 cynhadledd dros y ffôn mewn perthynas â'r achosion hyn.

## Apeliadau pellach

Gellir gwneud cais am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad Tribiwnlys Achos neu Dribiwnlys Achos Interim ar seiliau cyfyngedig i'r Uchel Lys. Dros gyfnod yr adroddiad hwn, ni wnaed unrhyw geisiadau am ganiatâd.

## Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro pa mor effeithiol mae gwasanaethau'n cael eu darparu, mae gennym ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer mesur dwy agwedd allweddol ar ein busnes; sef cyflymder ein gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth drwy foddhad cwsmeriaid.

Er mwyn mesur cyflymder ein gwasanaeth, mae gennym gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol sy'n seiliedig ar yr amser a gymerir i brosesu cais – o'r adeg y bydd cais yn cyrraedd i'r gwrandawiad neu pan fydd wedi'i gwblhau (gweler isod). Er mwyn mesur boddhad cwsmeriaid, rydym yn defnyddio dangosydd sy'n deillio o ffurflenni adborth a gyhoeddir pan fydd achos wedi dod i ben (gweler adran 4).

## Cyflymder ein gwasanaeth 2017-2018

| | |
|---|---|
| **Targed:** wedi ymdrin â 95% o ymholiadau neu wedi derbyn 95% o achosion o fewn 10 diwrnod gwaith iddynt gyrraedd | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion |
| **Targed:** 100% o hysbysiadau gwrandawiad wedi'u cyflwyno i atebydd/apelydd o leiaf 15 diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad ac o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn unrhyw wrandawiad a ohiriwyd | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion |
| **Targed:** 100% o'r hysbysiadau gwrandawiad wedi'u cyflwyno i dystion o fewn 10 diwrnod gwaith i'r gwrandawiad | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion |
| **Targed:** 90% o'r penderfyniadau wedi'u cyhoeddi cyn pen 30 diwrnod gwaith ar ôl y gwrandawiad | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion |
| **Targed:** Gollwng 75% o'r ceisiadau cyn pen 12 mis | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion |

## Cwynion

Nid oedd PDC wedi derbyn unrhyw gwynion ffurfiol yn ystod y cyfnod adrodd dan sylw.

# Adran 3: Crynodebau o achosion

Yn yr adran hon:

- Cyfeiriadau
- Apeliadau

## Cyfeiriadau

Yn ystod y cyfnod adrodd cynhaliwyd 2 wrandawiad tribiwnlys achos o ganlyniad i gyfeiriadau gan yr Ombwdsmon. Mae crynodebau o'r achosion a benderfynwyd gan PDC i'w gweld isod.

### APW/001/2017-018/CT
### Cyngor Sir y Fflint

Honnwyd bod y cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Sir y Fflint drwy beidio â dangos parch ac ystyriaeth tuag at bobl eraill a drwy ymddwyn mewn ffordd a oedd yn bwlio ac yn aflonyddu ar eraill.

Roedd y digwyddiad wedi codi yn sgil negeseuon e-bost roedd y cynghorydd wedi eu hanfon at un o swyddogion y cyngor wrth godi materion ar ran ei hetholwyr. Roedd y cynghorydd wedi mynegi ei barn am swyddog penodol, nad oedd wedi cael y dasg o ddelio â'r mater dan sylw, mewn negeseuon e-bost at nifer o bartïon.

Canfu'r Tribiwnlys Achos yn unfrydol bod y cynghorydd wedi methu â chydymffurfio â Chod Ymddygiad Cyngor Sir y Fflint fel a ganlyn:

- Mae'n rhaid i chi ddangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill (paragraff 4(b)).
- Mae'n rhaid i chi beidio â bwlio nac aflonyddu ar unrhyw un (paragraff 4(c)).

Daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad unfrydol y dylid gwahardd y cynghorydd am gyfnod o 14 mis rhag bod na dod yn aelod o Gyngor Sir y Fflint nac o unrhyw awdurdod perthnasol arall yn ôl ystyr hynny yn Neddf Llywodraeth Leol 2000. Nododd bod y cynghorydd wedi ymddangos gerbron PDC o'r blaen ac wedi ymrwymo i gydymffurfio'n llawn â gofynion y Cod Ymddygiad. Daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad fod y cynghorydd wedi gweithredu yn ddi-hid neu'n fwriadol, ac wedi methu â chydweithredu ag ymchwiliad yr Ombwdsmon.

### APW/002/2017-018/CT
### Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Honnwyd bod y cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy drwy beidio â chyflawni ei ddyletswyddau gan roi sylw dyledus i'r egwyddor o gyfle cyfartal i bob person, drwy fethu â dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill, drwy ymddwyn mewn ffordd a oedd yn bwlio ac yn aflonyddu ar eraill, drwy weithredu mewn ffordd a oedd yn peryglu neu a oedd yn debygol o beryglu didueddrwydd y rheini sy'n gweithio i'r awdurdod neu ar ran yr awdurdod, drwy ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol, drwy ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n rhesymol ei hystyried yn un a fyddai'n dwyn anfri ar y swydd neu'r awdurdod, drwy ddefnyddio neu geisio defnyddio ei safle yn amhriodol er mwyn rhoi neu sicrhau mantais iddo'i hun neu i unrhyw un arall neu greu neu osgoi anfantais iddo'i hun neu i unrhyw un arall, drwy geisio dylanwadu ar benderfyniad yr oedd ganddo fuddiant sy'n rhagfarnu ynddo, a drwy wneud

sylwadau ysgrifenedig am benderfyniad yr oedd ganddo fuddiant sy'n rhagfarnu ynddo.

Roedd y digwyddiad wedi codi yn dilyn tynnu un o gydnabod personol agos y cynghorydd o'i rôl fel llywodraethwr ysgol, ac yn dilyn enwi'r cynghorydd yn y llythyr cychwynnol oddi wrth y Cyngor yn hysbysu'r unigolyn o'r bwriad i'w dynnu o'i rôl. Yn sgil hyn, roedd y cynghorydd wedi gwneud honiadau difrifol am amryw o swyddogion a chyflogeion y cyngor, wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol i drydydd partïon, wedi cyflwyno sylwadau ar ran ei gydnabod personol agos ac wedi rhoi pwysau amhriodol ar un o swyddogion y cyngor i'w helpu.

Canfu'r Tribiwnlys Achos yn unfrydol bod y cynghorydd wedi methu â chydymffurfio â Chod Ymddygiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel a ganlyn:

- Mae'n rhaid i chi gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyledus i'r egwyddor o gyfle cyfartal i bob person, ni waeth be fo'i ryw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oed neu grefydd (paragraff 4(a)).
- Mae'n rhaid i chi ddangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill (paragraff4(b)).
- Mae'n rhaid i chi beidio â bwlio nac aflonyddu ar unrhyw un (paragraff 4(c)).
- Mae'n rhaid i chi beidio â gwneud dim sy'n peryglu, neu sy'n debygol o beryglu didueddrwydd y rheini sy'n gweithio i, neu ar ran, eich awdurdod (paragraff 4(d)).
- Mae'n rhaid i chi beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth sy'n rhesymol ei hystyried yn wybodaeth o natur gyfrinachol, heb ganiatâd penodol rhywun sydd â'r awdurdod i roi caniatâd o'r fath, neu oni bai ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i wneud hynny (paragraff 5(a)).
- Mae'n rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn ffordd a allai fod yn rhesymol ei hystyried yn un a fyddai'n dwyn anfri ar eich swydd neu eich awdurdod (paragraff 6.1 (a)).
- Mae'n rhaid i chi beidio, yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, ddefnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i chi eich hun, neu i unrhyw un arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun, neu i unrhyw un arall (paragraff 7(a)).
- Os oes gennych chi fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, mae'n rhaid i chi, oni roddwyd i chi ollyngiad gan bwyllgor safonau eich awdurdod, beidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw (paragraff 14(1)(c)).
- Os oes gennych chi fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, mae'n rhaid i chi, oni roddwyd i chi ollyngiad gan bwyllgor safonau eich awdurdod, beidio â gwneud unrhyw sylwadau ysgrifenedig (p'un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig), mewn perthynas â'r busnes hwnnw (paragraff 14(1)(d)).

Daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad unfrydol y dylid gwahardd y cynghorydd am gyfnod o 18 mis rhag bod na dod yn aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy nac o unrhyw awdurdod perthnasol arall yn ôl ystyr hynny yn Neddf Llywodraeth Leol 2000.

## Apeliadau

Yn ystod y cyfnod adrodd, ni chynhaliwyd dim gwrandawiadau tribiwnlys apêl.

# Adran 4 – Ein Cwsmeriaid

Yn yr adran hon:

- Arolwg boddhad cwsmeriaid

## Arolwg boddhad cwsmeriaid

Mae PDC yn gwneud ei orau i wella'r modd y darperir gwasanaethau i gwsmeriaid, a'i nod yw sicrhau bod ein cwsmeriaid yn ganolog i bopeth a wnawn.

Yn ystod 2017-2018, dosbarthodd PDC arolwg boddhad cwsmeriaid ar gwblhau achosion. Mae adborth yr arolwg yn ein galluogi i ddeall yn well beth yw anghenion ein cwsmeriaid, a bydd yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar feysydd llwyddiannus PDC, yn ogystal â thynnu sylw at y meysydd hynny y mae angen i PDC eu gwella.

Cawsom 1 ffurflen wedi'i llenwi yn ystod 2017-2018 yn dweud:

- bod PDC wedi ymateb yn brydlon
- bod PDC yn gwrtais ac yn barod i helpu
- ei fod yn fodlon â'r gwasanaeth a gafodd
- ei fod yn gallu deall y broses
- bod yr wybodaeth yn y ffurflenni cyfarwyddyd yn ddefnyddiol
- ein bod wedi prosesu'r achos yn effeithlon.

# Adran 5 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr adran hon:

- Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2018-2019

Mae'n bwysig bod PDC yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu'r gwasanaethau gorau posibl i'n cwsmeriaid. Mae'r adran hon yn ymwneud â'r modd y bydd PDC yn adeiladu ar ei gyflawniadau drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n cwsmeriaid.

## Blaenoriaethau Busnes ar gyfer 2018-2019

- Rhoi sylw i'r gofyniad am aelodau cyfreithiol newydd i PDC gyda golwg ar gynyddu amrywiaeth ei aelodaeth.
- Cynllunio a darparu digwyddiad hyfforddiant i'r holl aelodau a hyfforddiant ar gyfer aelodau cyfreithiol newydd.
- Rhoi system werthuso newydd ar waith i'r holl aelodau.
- Parhau i fonitro a diweddaru gwefan PDC i gynnwys dulliau cyfathrebu heb fod yn rhai ysgrifenedig.
- Darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon, bodloni dangosyddion perfformiad allweddol ac ymateb i adborth mewn arolygon boddhad cwsmeriaid.

# Adran 6 – Gwariant

Yn yr adran hon:

- Gwariant ar gyfer 2017-2018

## Gwariant ar gyfer 2017-2018

| Cynnwys | Swm |
|---|---|
| Ffioedd a Threuliau'r Aelodau ar gyfer achosion tribiwnlys* | £30,000 |
| Digwyddiadau Tribiwnlys (costau gwrandawiadau)* | £6,000 |
| **Cyfanswm** | **£36,000** |

* wedi'i dalgrynnu i'r £1,000 agosaf